



Ysgol Pentreuchaf

127. Polisi Rhieni a Gwirfoddolwyr yn Cludo Plant

Nod

Sicrhau fod plant yn medru mynychu gwahanol gyflwyniadau, perfformiadau, gweithgareddau addysgol, diwylliannol, chwaraeon ymweliadau i lefydd diddorol a.y.y.b. er fod niferoedd weithiau'n fach a chostau bysiau yn ein llethu.

Canllawiau

1. Y Gwasanaeth Ysgolion sy'n derbyn cyfrifoldeb am iechyd a diogelwch staff, disgyblion a gwirfoddolwyr ble nad oes esgeulustod anghyfreithlon (Deddf Iechyd a Diogelwch 1974). Er hyn, y mae'n gyfrifoldeb ar y Pennaeth neu'r athrawes sy'n gyfrifol am y daith i lunio Asesiad Risg.
 2. Dylai unrhyw wirfoddolwr wneud ei orau i sicrhau iechyd a diogelwch pawb yn y grŵp sy'n cael ei gludo gan ddilyn cyfarwyddiadau'r Pennaeth neu'r athrawes sy'n gyfrifol am y daith.
 3. Dylid sicrhau caniatad rhieni'r disgyblion cyn defnyddio unrhyw gerbyd preifat drwy gael caniatad ysgrifenedig pan fydd plentyn yn cychwyn yn yr ysgol.
 4. Nid oes raid derbyn gwiriad gan y DBS os nad yw'r unigolyn mewn cysylltiad rheolaidd â disgyblion ond dylid lleihau unrhyw siawns y bydd gwirfoddolwr yng nghwmni plentyn unigol. Byddai'n arfer dda sicrhau fod mab neu ferch y rhiant yr olaf yn y car.
 5. Dylai cerbyd unrhyw wirfoddolwr (gan gynnwys staff yr ysgol) fod yn addas a diogel gyda'r yswiriant cywir, a dylai'r gyrrwr feddu ar drwydded gyfredol. Dylid gofyn i yrrwyr gysylltu gyda'u cwmni yswiriant i sicrhau bod telerau'r yswiriant yn caniatáu iddynt gludo disgyblion (gan sicrhau a yw'n dderbyniol iddynt dderbyn cyfraniad ariannol tuag at eu petrol). I'r perwyl hwn, gofynnir i bob rhiant lenwi ffurflen (unwaith ac am byth) a gadael i ni wybod pe byddai unrhyw newidiadau.
 6. Dylid rhoi gwybodaeth yn syth i'r Pennaeth neu'r athrawes sy'n gyfrifol am y daith os oes unrhyw bryderon ynglŷn ag iechyd a diogelwch y plentyn cyn neu ar ôl y daith.
 7. Rhaid i bob plentyn wisgo gwregys diogelwch ar bob taith.
 8. Yn dilyn rheoliadau ' Motor Vehicles (Wearing of Seat Belts) (Amendments) Regulations 2006' ddaeth i rym ar 18fed. o Fedi 2006 a Motor Vehicles (Wearing of Seat Belts) (Amendments) Regulations Amendments 2015 a ddaeth i rym 1 Ebrill 2015. Mae'r Rheoliadau yma yn gosod allan rheolau newydd ynglŷn â gwisgo gwregysau diogelwch a seddi diogel i blant –
 - i) Y Gyfraith ar gyfer plant sydd dros **135cm** (4 troedfedd 5 modfedd) o daldra, neu'n 12 oed neu'n hŷn yn y seddau blaen a'r seddau cefn, rhaid gwisgo'r gwregys diogelwch i oedolyn. Nes bydd y plentyn yn 14 oed, cyfrifoldeb y gyrrwr yw sicrhau bod y plentyn yn gwisgo'r gwregys diogelwch yn gywir.
 - ii) Y gyfraith ar gyfer plant sydd **dros 3 oed a hyd at 135cm** (4 troedfedd 5 modfedd) o daldra (ac o dan 12 oed) yn y seddau blaen a'r seddau cefn, rhaid i'r plentyn ddefnyddio'r sedd ddiogelwch gywir i blentyn, sef
 - clustog hybu (booster cushion) – i blant sy'n 22 kg a throsodd neu 6 oed a throsodd
 - sedd hybu (booster seat) - i blant sy'n 15 kg a throsodd neu 4 oed a throsodd
 - sedd plentyn (child seat) – i blant o 9 i 18 kg, o 9 mis i 4 oed (yn fras)
- * Mae 3 eithriad lle nad oes rhaid i blentyn yn y categori hwn ddefnyddio sedd ddiogelwch i blentyn (ond ym mhob achos, RHAIID i'r plentyn ddefnyddio gwregys diogelwch i oedolyn yn lle hynny) -
- A. Mewn tacsi
 - B. Os yw plentyn yn teithio pellter byr oherwydd 'rheidrwydd annisgwyl' (salwch a.y.y.b.)
 - C. Os yw'r ddwy sedd ddiogelwch i blant yn cael eu defnyddio ac nad oes modd gosod trydedd un.
9. Os bydd angen i rai plant deithio mewn ceir tra bo eraill yn teithio mewn bus, byddwn yn ceisio sicrhau mai'r plant talaf fydd yn teithio mewn ceir.

Casgliad

I sicrhau yr addysg orau posibl a phrofiadau gwerthfawr ac amrywiol i'n plant, rhaid i ni ddbynnu ar gymorth gan rieni i gludo plant ar wahanol adegau. Rhaid cyflawni'r uchod i sicrhau diogelwch pob plentyn.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____